

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**

**Dydd Llun 13 Chwefror 2023**

**AELODAU’N  
BRESENNOL:**

Trevor Baker, David Blackwell, Trevor Brown, Vince Browne, Cedric Burden, Mairead Canavan, Norman Craggs, Tim Exell, Matt Gilbert, y Cynghorydd Emma Goodjohn, Sarah Jenkins-Welch, Rhodri Jones, Rhys Angell Jones, Sian Lewis, Martin Price, Paula Vaughan, Terry Vaughan-Taylor

**Hefyd yn bresennol:** Matt Bowmer, y Cynghorydd Lis Burnett, Rachel Cox, David Davies, Paula Ham, Morwen Hudson, Gemma Jones, Lisa Lewis, Nicola Monckton, Lisa Soderland, Rob Thomas,

<b>Eitem</b>	<b>Mater</b>	<b>Trafodaeth</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rhiannon Birch, Chris Britten, Mari Gibbs, Lorraine Lancaster, Colin Smith	
2.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol  Materion yn codi	Cytunwyd fel cofnod cywir  <b><u>Adolygiad Ariannu Ysgolion Arbennig</u></b> – Ar yr agenda.  <b><u>Her Cyllid LIC</u></b> – Ar yr agenda	
3.	Cynigion ar gyfer Cyllideb 2023/24	Cyflwynodd Matt Bowmer y cynigion diweddaraf ar gyfer cyllideb 2023/24 trwy gyflwyniad PowerPoint a fydd yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r Fforwm Cyllideb ar ôl y cyfarfod.  Mae'r setliad dros dro wedi bod yn gadarnhaol i Gymru o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnet gan arwain at gyllid ychwanegol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae AGS Bro Morgannwg (ASD) ar gyfer Addysg wedi cynyddu 5.1%, a gwasanaethau cymdeithasol 7%.	

Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer ysgolion ar gyfer 2023/24 wedi newid ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a aeth i'r Cabinet ar 19 Ionawr.

Y gyllideb weithio bresennol yw y bydd ysgolion yn derbyn y twf canlynol ar gyfer 23/24

Chwyddiant cyflog *(gweler y nodyn isod)	£7.708M
Ailbrisiadau cyfraddau	£0.250M
Twf ynni	£2.300M
Twf Demograffig Ysgolion Arbennig	£1.000M
Twf prydau ysgol am ddim	£0.400M
Canolfannau adnoddau	£0.450M
Derw Newydd	£0.500M
Y Gronfa Anghenion Ychwanegol	£0.250M
<b>CYFANSWM y Cynnydd</b>	<b>£12.858M</b>
Trosglwyddiadau ***(nodyn isod)	£0.423M
Twf ynghyd â throsglwyddiadau	£13.281M

\*Sylwch fod y sefyllfa ar y dyfarniadau cyflog a ragwelir wedi newid sawl gwaith, mae'r amcangyfrif cyfredol ar gyfer chwyddiant cyflog yn seiliedig ar

1. Staff nad ydynt yn addysgu 6% o Ebrill 2023
2. Staff addysgu, 6.5% o'r 8% a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer dyfarniad cyflog Medi 2022 am y pum mis rhwng Ebrill 2023 a mis Awst 2023, ynghyd â 5% ychwanegol ym mis Medi 2023.
3. Ailosod y sefyllfa sylfaenol ar gyfer dyfarniadau cyflog 2022

\*\* nodyn 2. Mae trosglwyddiadau mewn perthynas â chyllidebau lle trosglwyddwyd dirprwyaeth i ysgolion, (mae hyn yn cynnwys yr ardoll brentisiaethau).

### **Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae dau faes twf wedi cael eu hariannu'n rhannol gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith ac am byth (£1.2M) i gydnabod y bydd y meysydd hyn o bwysau yn lleihau eto yn y dyfodol.

Mae'r cynnydd mewn pwysau cost ynni o £2.3M wedi cael ei ariannu'n rhannol gan ddefnydd o gronfeydd wrth gefn cynghorau gwerth £1M.

Mae'r cynnydd mewn prydau ysgol am ddim o £400k wedi cael ei ariannu'n rhannol drwy drosglwyddo arian untro o gronfeydd wrth gefn y cyngor o £200k.

### **Arbedion Effeithlonrwydd £2.75M**

Mae cyllideb yr ysgol wedi cael targed arbedion effeithlonrwydd o £2.75M ar gyfer y flwyddyn ariannol 23/24.

O ganlyniad, dangosir cyfanswm y symudiad ar gyllideb ysgolion yn y tabl isod

Dyfarnu twf	£12.858M
Trosglwyddiadau i gyllideb ddirprwyedig	£0.423M
Arbedion Effeithlonrwydd	-£2.750M
Defnyddio cronfeydd wrth gefn untro	-£1.200M
Symudiad net	£9.331M

### **Cymhariaeth AGS/ASD**

Amcangyfrifir bod y gyllideb bresennol yn £5.5M uwchben addysg AGS/ASD.

### **Y Camau Nesaf**

- Ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben 16 Chwefror 2023
- Ymgynghoriad craffu Chwefror 2023
- Cynigion Terfynol i'r Cabinet 27 Chwefror 2023
- Cynigion Terfynol i'r Cyngor 6 Mawrth 2023

### **Gall unrhyw aelodau o'r Fforwm Cyllideb sy'n dymuno codi unrhyw ymholiadau ynghylch y cynigion e-bostio Dave Blackwell yn uniongyrchol a fydd yn coladu ac yn trosglwyddo ymholiadau i Matt Bowmer**

Rhoddodd Y Cyngorydd Lis Burnett sicrwydd i'r Fforwm Cyllideb fod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gyngor Bro Morgannwg, a fydd yn cefnogi ysgolion mewn unrhyw ffordd bosibl sy'n cynnwys cynorthwyo i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw gyllid ysgol ychwanegol a ddyferfir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei drosglwyddo i ysgolion.

Pawb/D  
B

4.	Twf cyllideb dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23	<p>Mae £1.5M ychwanegol wedi'i ddyfarnu i ysgolion i gyfrannu tuag at y gost o dalu am ddyfarniadau cost cyflog 2022/23 sy'n fwy na'r symiau a ganiateir yn y gyllideb.</p> <p>Mae pob ysgol wedi cael e-bost gyda dyraniad cyllideb ychwanegol y dylid ei drin fel cynnydd i gyllidebau ysgolion, yn hytrach na throsglwyddo incwm.</p> <p>Mae'r £1.5M yn cynrychioli 60% o'r gost ychwanegol i sicrhau dyfarniad cyflog o 5% i athrawon a'r dyraniad absoliwt o £1,925 i staff nad ydynt yn athrawon.</p> <p>Dywedodd Matt Bower mai'r arwyddion yw y bydd LIC yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng y 5% y cytunwyd arno ar gyfer athrawon, a'r 8% a gynigiwyd ar hyn o bryd ar gyfer Medi 2022 os caiff ei gymeradwyo.</p>	
5.	Her Cyllid LIC	<p>Diweddarodd Dave Blackwell y fforwm ar gynnydd o ran Her Cyllid Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae is-grŵp o fforwm y Gyllideb wedi'i sefydlu i edrych ar ariannu addysg ym Mro Morgannwg, o'i gymharu â gweddill Cymru ac i sefydlu'r dull gorau o lobio Llywodraeth Cymru i adolygu fformiwla ariannu LIC gyda'r nod o leihau'r bwlch rhwng y cyllid fesul disgybl ym Mro Morgannwg ac Awdurdodau Lleol eraill.</p> <p>Aelodau'r Fforwm Cyllideb ar y grŵp yw Trevor Baker, Dave Blackwell, Vince Browne, Norman Craggs, Matt Gilbert a Rhys Angell Jones, gyda Nicola Monckton hefyd yn bresennol am gefnogaeth.</p> <p>Cyfarfu'r grŵp â John Rae o CLILC ar 10 Tachwedd 2022 i ddarganfod mwy o wybodaeth am y fformiwla a chwilio am feysydd penodol y gellir eu herio. Y pwyntiau allweddol a nodwyd yw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae LIC yn defnyddio data'r cyfrifiad o 1991 o fewn y fformiwla</li> <li>• Nid yw fformiwlâu prif ffrwd wedi'u diweddarau ers dros 20 mlynedd</li> <li>• Nid oes unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol sy'n caniatáu am y gost sylfaenol i addysgu plentyn</li> <li>• Mae'r fformiwla yn seiliedig ar angen cymharol yn hytrach nag angen gwirioneddol</li> </ul>	

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'n hysbys a fyddai ysgolion Bro Morgannwg yn waeth neu'n well o ran cyllid pe bai'r ffactorau hyn yn cael sylw</li> </ul> <p>Ychwanegodd Norman Craggs fod cydraddoldeb ac amddifadedd yn effeithio'n andwyol ar Fro Morgannwg, a bod lefel yr incwm treth gyngor y gall Awdurdodau Lleol ei gyflawni yn effeithio'n andwyol ar y fformiwla.</p> <p>Cododd Dave Blackwell gwestiwn gyda'r gweinidog yn nigwyddiad y Ford Gron ar 19 Ionawr 19 o ran y cynnydd yr oedd LIC wedi'i wneud o ran argymhellion adolygiad Luke Sibietta.</p> <p>Mae Dave Blackwell hefyd wedi e-bostio Luke Sibietta yn uniongyrchol i ofyn a fyddai ar gael i ateb rhai ymholiadau penodol ynghylch cyllid addysg yng Nghymru.</p>	
6.	Adolygiad Ariannu Ysgolion Arbennig	<p>o Diweddarodd David Davies a Trevor Baker y fforwm ar y cynlluniau i adolygu'r fformiwla ariannu ysgolion Arbennig ym mlwyddyn ariannol 2023/24.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r galw am leoliadau yn Ysgol y Deri yn tyfu bob blwyddyn, yn ogystal â chymhlethdodau y disgyblion sydd wedi ymrestru.</p> <p>Nid oes modd cymharu â darpariaeth debyg, gan fod gan Ysgol y Deri fodel gweithredu gwahanol i weddill Cymru, gan gyfuno holl anghenion amrywiol disgyblion mewn un ysgol yn unig.</p> <p>Ni ragwelir y bydd adolygiad o'r fformiwla yn cynhyrchu unrhyw arbedion, ond mae angen adolygiad i sicrhau bod y fformiwla ariannu yn dryloyw a bod gwiriadau a balansau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'n ddigonol.</p> <p>Dywedodd Dave Blackwell y byddai'r Fforwm Cyllideb yn gwerthfawrogi mewnwelediad i ariannu'r ysgol arbennig, sy'n cael ei hariannu ar yr uchaf yng Nghymru, o'i gymharu â'r sectorau prif ffrwd sy'n cael eu hariannu ar yr isaf yng Nghymru. Bydd dealltwriaeth o'r fformiwla hefyd yn cyfrannu at her cyllid Llywodraeth Cymru.</p>	TB/DD

7.	Unrhyw fusnes arall	<p><b><u>Dyddiadau cyfarfod nesaf</u></b> - Maent i gyd yn digwydd ar fore Mercher, 9.30am ar Microsoft Teams</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 14 Mehefin 2023</li> <li>• 20 Medi 2023</li> <li>• 29 Tachwedd 2023 (gwahoddiad i'r arweinydd, y Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr)</li> <li>• 6 Mawrth 2024</li> </ul> <p>Mae'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 8 Mawrth 2023 wedi'i ganslo oherwydd y cyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd heddiw ar 13 Chwefror</p>	
----	---------------------	--	--